# Geth

Mae'r capten yn gwerthu
a tithau yn prynu,
swnio fel bod gan Eli
lot a ar ei blât,
yn mwynhau rhedeg busnes
a chithau dan bwysau
i'w phlesio.

Mae'r pwysau i brynu
wedi bod yn cynyddu
a thithau mewn penbleth;
sut i ddianc o'r twll?
Ond cofia bod gen ti
yr hawl i ymchwilio,
darllen y cynhwysion,
trafod gyda chyfoedion,
astudio'r ffeithiau
fel bod pawb
yn elwa.

Efallai drwy siarad
y bydda pawb yn cyfadda'
mai sothach yw'r slwsh
a'ch bod chi i gyd
yn yr un cwch.


© Hawlfraint BBC